OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2003 Rhif 1779 (Cy.193)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (Mân Dreuliau) (Diwygio) (Cymru) 2003

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *15 Gorffennaf 2003* |
| *Yn dod i rym* | - - | *1 Medi 2003* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 3(3), (4), (5) a (9) o Ddeddf Addysg (Ysgolion) 1997(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**).

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (Mân Dreuliau) (Diwygio) (Cymru) 2003 a deuant i rym ar 1 Medi 2003.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw flwyddyn ysgol sy'n dechrau ar 1 Medi 2003 neu wedyn.

**Diwygio Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (Mân Dreuliau) 1997**

**2.**—(1) Diwygir Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (Mân Dreuliau)1997(**3**) fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(2), yn lle "£12,227" rhoddir "£12,508".

(3) Yn lle rheoliad 2(3)(a) a (b) rhoddir —

"(a) £77 where the relevant income does not exceed £11,626; and

(b) £40 where that income exceeds £11,626 but does not exceed £12,508."

(4) Yn rheoliad 4 —

(a) ym mharagraff (3), yn lle "£11,381" rhoddir "£11,639"; a

(b) ym mharagraff (4) —

(**1**) 1997 p.59. Diwygiwyd adran 3 gan adran 130 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p.31).
(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 3 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).
(**3**) O.S. 1997/1969, a ddiwygiwyd gan O.S. 1998/1585, O.S. 1999/1505, O.S. 2000/1939 (Cy.137), O.S. 2001/2708 (Cy.227) ac O.S. 2002/1880 (Cy.189).

(i) yn lle "£11,381" rhoddir "£11,639", a

(ii) yn lle "£11,202" rhoddir "£11,460".

(5) Yn rheoliad 9(3), wedi is-baragraff (b) rhowch "or

(c) Child Tax Credit prescribed for the purposes of section 512ZB(4)(a)(iv) of the Education act 1996(**4**).".

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**5**)

*D.Elis-Thomas*

15 Gorffennaf 2003

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**4**) 1996 p.56. Rhagnodir Credyd Treth i Blant at ddibenion 512ZB(4)(a)(iv) o Ddeddf Addysg 1996 gan Orchymyn Addysg (Ciniawau Ysgol Rhad ac am Ddim) (Credydau Treth Rhagnodedig) (Cymru) 2003, O.S. 2003/879.

(**5**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (Mân Dreuliau) 1997 ("Rheoliadau 1997") mewn perthynas â blwyddyn ysgol yn dechrau ar 1 Medi 2003 neu wedyn. Mae Rheoliadau 1997 yn darparu ar gyfer talu grantiau o ran mân dreuliau, ac ar gyfer peidio â chasglu mân dreuliau, mewn perthynas â disgyblion sy'n gymwys i barhau i gael lleoedd a gynorthwyir mewn ysgolion annibynnol yn rhinwedd adran 2 o Ddeddf Addysg (Ysgolion) 1997, er bod y cynllun cymorth lleoedd wedi'i ddileu gan adran 1 o'r Ddeddf honno.

Mae'r Rheoliadau hyn yn llacio'r prawf moddion ariannol (a nodir yn rheoliad 2 o Reoliadau 1997) ac yn cynyddu swm y grant sy'n daladwy ar gyfer grant gwisg ysgol o ran gwariant ar ddillad a dynnwyd mewn perthynas â'r flwyddyn ysgol 2003/2004 a'r blynyddoedd ysgol dilynol.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn llacio'r prawf moddion ariannol (a nodir yn rheoliad 4 o Reoliadau 1997) ar gyfer grantiau teithio ac yn cynyddu swm y grant a delir.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn ychwanegu Credyd Treth i Blant i'r rhestr o fudd-dâl neu lwfans yn Rheoliadau 1997 y mae eu derbyn yn galluogi i'r ffioedd am brydiau ysgol beidio â chael eu talu.